Our reference: AEC-002287-L1B5

Salutation1 FirstName1 LastName1
JobTitle1
OrganisationName1
Street11
Street21
Street31
City1
County1
PostCode1

www.tpr.gov.uk/start-online

| | |
|---|---|
| **Your duties start date** | **1 January 1900** |
| **Your declaration deadline** | **1 January 1900** |
| **Your PAYE reference** | **PAYE1** |
| **Your Letter code** | **OrganisationNumber1** |

**Keep this information safe to complete your duties.**

April 2021

Dear Salutation1 LastName1

**You must act now: your automatic enrolment duties**

The Pensions Regulator is responsible for ensuring that all employers comply with workplace pension law. Under the Pensions Act 2008, every employer in the UK must put certain staff into a workplace pension scheme and pay into it. This is called 'automatic enrolment'.

**This applies to you**
Whether you're an architect, a newsagent, have a personal care assistant or a nanny, you are an employer from the day your first member of staff started working for you and you have legal duties. Your duties are what you need to do to comply with the law.

According to our records your 'duties start date' was **1 January 1900**, which is when your first member of staff started working for you.

**What you need to do?**

1. **You need to act immediately**
   The law applied to you from your duties start date, so you need to act straight away.

   Use our online tool to quickly work out what you need to do and how to meet your duties. This includes backdating any pension contributions to when your staff should have been put into your workplace pension scheme. Go to: **www.tpr.gov.uk/start-online**

   I have also enclosed our Essential Guide with this letter which you can use as a reference when completing your automatic enrolment duties.

2. **Complete your declaration of compliance by 1 January 1900.**
   You have a legal duty to complete and submit a declaration of compliance to tell us how you've met your duties. Your declaration deadline is 1 January 1900, however we recommend you complete and submit your declaration of compliance ahead of your deadline to give you peace of mind you have fulfilled your duties.

**Your contact details**
We currently hold the following email address for you:

**SecondaryEmailAddress1**

Please let us know if this is correct so we can send you more information and reminders by email to help you with your duties. If you are using someone to help you complete your duties, for example an accountant, financial adviser or member of staff, please tell us who this is so we can contact them.

To update your contact details, go to: **www.tpr.gov.uk/start-nominate**

**Do not ignore this letter, you need to act now. If you do not complete your legal duties, including submitting your declaration of compliance on time, you may be subject to fines.**

Yours sincerely



**Mel Charles**
Director, The Pensions Regulator

Ein cyfeimod: AEC-002287-L1B5

Salutation1 FirstName1 LastName1
JobTitle1
OrganisationName1
Street11
Street21
Street31
City1
County1
PostCode1

www.tpr.gov.uk/start-online-cy

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau eich dyletswyddau** | **1 Ionawr 1900** |
| **Dyddiad cau eich datganiad** | **1 Ionawr 1900** |
| **Eich cyfeirnod Talu wrth Ennill** | **PAYE1** |
| **Cod eich llythyr** | **OrganisationNumber1** |

**Cadwch y wybodaeth hon yn ddiogel i gyflawni'ch dyletswyddau.**

Ebrill 2021

Annwyl Salutation1 LastName1

**Rhaid i chi weithredu nawr: eich dyletswyddau cofrestru awtomatig**

Mae'r Rheolydd Pensiynau yn gyfrifol am sicrhau bod pob cyflogwr yn cydymffurfio â'r gyfraith ar gyfer pensiwn gweithle. O dan Ddeddf Pensiynau 2008, mae'n rhaid i bob cyflogwr yn y Deyrnas Unedig roi staff penodol mewn cynllun pensiwn gweithle, a thalu i mewn iddo. 'Cofrestru awtomatig' yw enw'r broses hon.

**Mae hyn yn berthnasol i chi**
Os ydych chi'n bensaer neu'n rhedeg siop bapur newydd, os oes gennych chi gynorthwyydd gofal personol neu nani, rydych chi'n gyflogwr o'r diwrnod y bydd eich aelod cyntaf o staff yn dechrau gweithio i chi, ac mae gennych chi ddyletswyddau cyfreithiol. Eich dyletswyddau ydy'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Yn ôl ein cofnodion ni, dyddiad dechrau eich dyletswyddau oedd **1 Ionawr 1900**, sef pan wnaeth eich aelod cyntaf o staff ddechrau gweithio i chi.

**Yr hyn y mae angen i chi ei wneud**

1. **Cwblhau eich datganiad cydymffurfio**
   Roedd y gyfraith yn berthnasol i chi o ddyddiad dechrau eich dyletswyddau, felly mae'n rhaid i chi weithredu ar unwaith.

   Defnyddiwch ein hadnodd ar-lein i gael gwybod yn gyflym beth mae angen i chi ei wneud a sut mae cyflawni'ch dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys ôl-ddyddio unrhyw gyfraniadau pensiwn i'r dyddiad y dylai'ch staff fod wedi cael eu rhoi yn y cynllun pensiwn gweithle. Ewch i: **www.tpr.gov.uk/start-online-cy**

   Rwyf hefyd wedi amgáu ein Canllaw Hanfodol â'r llythyr hwn. Gallwch gyfeirio ato wrth gyflawni eich dyletswyddau cofrestru awtomatig.

2. **Cwblhau eich datganiad cydymffurfio erbyn 1 Ionawr 1900.**
   Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i lenwi a chyflwyno datganiad cydymffurfio i ddweud wrthym sut rydych chi wedi mynd ati i gyflawni'ch dyletswyddau. Eich dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r datganiad yw 1 Ionawr 1900, fodd bynnag, rydym yn argymell eich bod yn llenwi ac yn cyflwyno eich datganiad cydymffurfio cyn y dyddiad cau er mwyn rhoi tawelwch meddwl i chi eich bod wedi cyflawni'ch dyletswyddau.

**Eich manylion cyswllt**
Dyma’r cyfeiriad e-bost sydd gennym ar eich cyfer ar hyn o bryd:

**SecondaryEmailAddress1**

A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni a ydy hwn yn gywir ai peidio, er mwyn i ni allu anfon rhagor o wybodaeth a negeseuon atgoffa atoch dros e-bost i’ch helpu chi â’ch dyletswyddau. Os oes rhywun yn eich helpu i gyflawni eich dyletswyddau, fel cyfrifydd, ymgynghorydd ariannol neu aelod o staff er enghraifft, dywedwch wrthym pwy yw'r person hwnnw er mwyn i ni allu cysylltu â nhw.

I ddiweddaru'ch manylion cyswllt, ewch i: **www.tpr.gov.uk/start-nominate-cy**

**Peidiwch ag anwybyddu’r llythyr hwn, mae angen i chi weithredu nawr. Os na fyddwch chi’n cyflawni eich dyletswyddau cyfreithiol, gan gynnwys cyflwyno eich datganiad cydymffurfio yn brydlon, fe allech chi gael dirwyon.**

Yn gywir

**Mel Charles**
Cyfarwyddwr, Y Rheolydd Pensiynau